

Hunaniaeth a Safleoli Cystadleuol



TREFI CEREDIGION



DEFNYDDIO'R CANLLAW HWN

Bwriedir i'r canllaw ysbryd hwn gael ei ddefnyddio gan bawb sy'n ymwneud â datblygu a hyrwyddo'r chwe thref. Mae tair rhan i'r canllaw hwn: Y Brand, Yr Hunaniaeth a'r Ffordd Ymlaen.

Gyda'i gilydd, mae baner y brand, colofnau'r brand a naratif y brand yn cynnig arweiniad. Maen nhw'n llywio dulliau cyfathrebu a marchnata yn y dyfodol, gan nodi asedau allweddol, negeseuon pwysig a ffordd o adrodd stori'r dref. Maen nhw'n tynnu sylw at y pethau sy'n gwneud pob tref yn unigryw ac yn ddeniadol. Yn amlwg, bydd yr arlwy benodol a gynigir yn amrywio ar draws cynulleidfaoedd gwahanol a bydd yn dibynnu ar ba agwedd ar y dref sy'n cael y sylw. Ond dylai'r brand arwain ac ysbrydoli. Dylai hefyd lywio'r ffordd y mae'r dref yn creu cynhyrchion a phrofiadau yn y dyfodol.

Mae'n bwysig bob amser i ofyn y cwestiwn "Sut mae'r penderfyniad neu'r polisi hwn yn adlewyrchu ac yn gwella brand y dref?".

Mae'r hunaniaeth yn creu steil gweledol ar gyfer y trefi. Mae hyn yn cynnwys yr enw, y ffont a'r system a'r steil. Mae hefyd yn cynnig arweiniad ar ddull ffotograffig i ddangos pob tref ar ei gorau. Mae'r system yr un fath ar gyfer pob tref ond mae'n caniatáu i frand y dref gyfleu ei natur unigryw drwy gynnwys, geiriau a delweddau.

Mae'r Ffordd Ymlaen yn tynnu sylw at rai egwyddorion a blaenoriaethau pwysig i lywio gwaith marchnata yn y dyfodol.



Y BRAND

EIN TREFI

ARWAIN CEREDIGION YMLAEN

Mae pob tref yng Ngheredigion yn dref arbennig. Mae ganddyn nhw straeon trawiadol i'w dweud. Gall pob un gyfrannu at wneud y sir yn fwy cystadleuol. Ac mae gan bob un ei rhan yn gwneud Ceredigion yn lle gwych i fyw, i ddysgu, i lwyddo ac i ymweld ag ef. Os bydd y trefi'n ffynnu, bydd y cymunedau a'r wlad o'u cwmpas yn llewyrchu hefyd.



Yr hanner dwsin dewisol.

6

TREF

6

STORI

6

BANER



Y CYFEIRIAD

Rydym wedi siarad gyda phobl allweddol yn y trefi er mwyn deall beth sy'n gwneud pob un yn wahanol. A deall yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'u blaen.

Yna, fe wnaethon ni gytuno ar syniad a lle i osod y brandiau. Nod y rhain yw bod yn ganolbwynt i ddatblygu a marchnata'r dyfodol. Dychymygwch eu bod fel baner.

Mae'r faner yn tynnu sylw at y dref. Mae i'w gweld o bell, yn tynnu pobl tuag ati, yn dangos pam y dylen nhw ddod. Mae hefyd i'w gweld o'r dref ei hun, yn arwain penderfyniadau allweddol ac yn dangos lle mae'r ffordd ymlaen.

Mae ychydig eiriau a brawddegau yn cynnal pob baner, yn dechrau dweud stori'r dref.

Yn olaf, rydym wedi creu colofnau'r brand - conglfeini cyson yr adeilad lle mae'r faner yn chwifio.



CARU CEREDIGION

Er fod pob tref yn wahanol, mae yna lawer sy'n eu tynnu ynghyd: cymunedau cryf, pobl greadigol a dyfeisgar, cysylltiad clos â byd natur o'u cwmpas ac ymdeimlad gwydn o Gymreictod.

Dyma nodweddion Ceredigion ei hun. Nid nod y prosiect hwn yw creu brand lle i Geredigion; er hynny, rydym wedi dadorchuddio rhai o'r elfennau ar gyfer brand i'r sir yn y dyfodol.



EIN CYMERIAD



CYMUNED

R'yn ni'n gweithio gyda'n gilydd. Yn cefnogi ein gilydd. Os na fydd eraill yn ei wneud ar ein rhan, byddwn yn gweithredu ein hunain. Pobl sy'n creu cymuned a phobl yw rhan fawr o'n stori. Byddwn yn newid, byddwn yn camu ymlaen, ond dal i guro fydd calon cymuned.

CYDWYBOD

R'yn ni am symud ymlaen, ond yn ein ffordd ein hunain. Byddwn yn gofalu am y pethau sy'n agos at ein calon ac yn bwysig i'r cenedlaethau i ddod. Byddwn yn gwarchod adnoddau lleol: yr amgylchedd, sy'n denu pobl aton ni, y tir a'r môr sy'n rhoi bwyd a'r adnodd cynaliadwy pwysicaf o'r cyfan - ynni, gallu a photensial ein pobl ifanc.

CREADIGOL

Mae Ceredigion yn ysbrydoli. Mae'r amgylchfyd yn annog creadigrwydd ac yn meithrin arloesi. R'yn ni'n wledig a dyfeisgar. Mae digon o le i bobl feddwl yn wahanol a gweithio'n llawn dychymyg. Mae sawl ffurf ar greadigrwydd: gwneuthurwyr, ysbrydolwyr, datrys-wyr, beirdd, llenorion, artistiaid, crefftwyr a gweithredwyr.

CYMRAEG

Dyma'r Gymru go iawn. Y tir, yr hanes, y bobl. Dyma pwy ydyn ni, a dyma yw ein lle. Rydym yn trysori ein hiaith, ein diwylliant a'n traddodiadau. Mae croeso i bawb sydd hefyd yn eu gwerthfawrogi. Byddwn yn cynnig gwir naws y lle i ymwelwyr. Yn rhannu'r straeon sy'n ein môr. Ac yn helpu pobl i fwynhau ein rhan arbennig o Gymru.



Pam mae Ceredigion yn Gymreig
i'r carn ond eto'n denu pawb sy'n
llawn antur?

Y ddaeryddiaeth, efallai - yn y gorllewin eithaf - mae'n ffurfio
ein ffordd o feddwl. Yn llawn harddwch naturiol. Lle mae'r
mynyddoedd yn cwrdd â'r môr.

Lle mae gan bobl ymlyniad dwfn at y ddaear — er mwyn ffyniant,
ysbrydoliaeth a lles. Lle mae drama'r glannau wastad wedi denu'r
Cardi i fentro ac edrych mas.

Yr ymdeimlad cryf o Gymreictod, efallai — ein diwylliant, ein
hiaith, ein helpen o anghydfurfio. Yr ysbryd a heriodd y drefn, a
ymladdodd tros hawliau sifil, a greodd sefydliadau cenedlaethol
gyda dylanwad rhyngwladol.

Y cyfuniad yma o ysbryd ac enaid sydd wedi llunio ein gorffennol
ac sy'n ein harwain tua'r dyfodol.



**CEREDIGION.
YSBRYD Y GORLLEWIN.
ENAIÐ CYMREIG.**

CHWE THREF



ABERAERON
ABERTEIFI
ABERYSTWYTH
LLANDYSUL
TREGARON
LAMPETER

YR HUNANIAETH



ABERAERON

BANER Y BRAND

Lle'r Iliwiau

CONGLFEINI'R BRAND

Baner y Brand - Lle'r Iliwiau

LLE

Y Man Delfrydol

Lle mae Mynyddoedd y Cambria'n trochi'u traed ym Môr Iwerddon. Mae mwy o gamerâu wedi eu clicio ar y cei na bron unman arall yng Nghymru. A'r tai amryliw'n ychwanegu at y prydferthwch byw. Mae'r wlad a'r glannau o amgylch yn llawn llwybrau, teithiau seiclo a hanes. Lle canolog, sy'n ganolfan wych.

TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Min y môr

Y môr sydd wedi ein creu a'r harbwr sy'n rhoi siâp i'n bywyd. Ar lannau eithaf Cymru, y môr yw'r dylanwad mawr. Mae'n ysbrydoli. Mae wedi creu cyfle, yn creu cyfoeth. Mae'r môr a'r harbwr a'r cei yn dal i ddenu. Ac mae cyfoeth Bae Ceredigion bellach yn ein bwytai.

POBL

Cymreictod

Mae Aberaeron yn gwbl Gymreig ac yn falch o hynny. R'yn ni'n croesawu pawb sydd am fwynhau ein hiaith a'n diwylliant. Mae llawer o'n bwyd a'n diodydd yn wirioneddol leol. Mae'r Gymraeg yn fyw ar y strydoedd ac yn y tafarndai hefyd. Gallwch brynu gweithiau celf a chrefft wedi'u hysbrydoli gan yr ardal.

ENAIÐ

Amdani

Lle positif yw Aberaeron. R'yn ni'n gweithio gyda'n gilydd, tros ein gilydd. Ynghyd, byddwn yn helpu Aberaeron i ffynnu, heb anghofio'r pethau pwysig. Byddwn yn creu digwyddiadau sy'n dod â'r dref yn fyw ac yn dweud ein stori. Byddwn yn parhau i osod safonau newydd i loywi enw Cymru a Cheredigion.

ABERAERON Y STORI

Yn Aberaeron mae lliw yn bwysig. Mae lliw yn llenwi'r lle. Oherwydd yn Aberaeron, mae lliw yn troi lle pert yn damed bach o nefoedd.

Wrth ichi deithio i'r dref ar hyd yr A487, byddwch yn teimlo eich bod wedi cyrraedd. Wrth weld tonnau Bae Ceredigion yn ddisglair yn y cefndir a'r tai yn enfys uwch y cei, mae'r galon yn siŵr o godi. Mae lliw ac arlliw pob tŷ'n cael eu dewis yn ofalus am fod y cyfan yn cyfrannu at galeidosgop gwefreiddiol ein hadeiladau Sioraidd yn ein tref lan môr.

Mae'r cei ac enwau'r strydoedd, fel Terasau Greenland a Newfoundland, yn tystio i'n perthynas â'r môr. Heddiw, mae'r harbwr a'r cei yn hafan i deithwyr, arlunwyr a ffotograffwyr. Ac mae'r dref yn cynnig noddfa hefyd i'r rhai sy'n chwilio am siopau bach safonol a manau blasus i yfed a bwyta.

Ond mae mwy na'r bwydlenni'n Gymreig. Arhoswch yn un o'n gwestai neu ein tafarndai ardderchog a chael blas o fyw yng Nghymru. Mae'r iaith o'ch cwmpas ym mhobman, yn y strydoedd a'r siopau, ac yn y bariau hefyd.

Nid tref wyliau yw Aberaeron. Mae'n gymuned lan-môr Gymreig sy'n falch a phositif.

Felly, os yw'r byd yn teimlo'n llwyd, dewch i Aberaeron. Bydd yn rhoi lliw yn eich bywyd, yn eich gwyliau, a'ch busnes hyd yn oed.

Dyma Aberaeron. Lle'r Iliwiau.

A scenic view of a coastline. In the foreground, there is a body of water with a small orange and white boat moving across it. The middle ground features a rocky cliffside with a white rectangular text box overlaid on it. The background shows a flat, brownish landscape under a cloudy sky.

ABERTEIFI

BANER Y BRAND

Lle mae llif o greadigrwydd

CONGLFEINI'R BRAND

Baner y Brand - Lle mae llif o greadigrwydd

LLE

Yn y gorllewin. Yng Nghymru

Y gorllewin yw gwlad antur, lle mae pobl yn chwilio am gyfle. Mae bod ar yr ymyl yn ein helpu i feddwl yn wahanol a herio ystrydebau. Yn y gorffennol, roedd Aberteifi'n borth i fywyd a byd newydd. Heddiw, ni yw'r Gymru newydd. Cymru lle mae meddylwyr gwreiddiol yn ffynnu a syniadau'n dod yn fyw.

TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Masnachu a gwneud

A ninnau'n dref harbwr, mae masnachu yn y gwaed. Roedd marsiandiwy'r yn prynu, gwerthu a chreu cyfoeth. Roedd seir'n creu llongau a chrefftwyr yn creu jîns. Roedd ffermwyr yn dod i'r mart. Roedd y cyfan yn helpu i greu ein cymuned ni. Heddiw, mae busnesau annibynnol, lleol, yn ffynnu. Maen nhw'n helpu i sicrhau bod Aberteifi'n llewyrchus unwaith eto.

POBL

Croesawgar

R'yn ni wastad wedi croesawu pobl sy'n mynd y filltir arall i ddod aton ni. Pobl a aeth trwy'r dref wrth chwilio am fywyd newydd. Pobl a ddaeth â syniadau a chreu dyfodol newydd yma. Ymwelwyr sy'n gwerthfawrogi pam ein bod yn arbennig. Tref sy'n gwbl Gymreig ond yn agor ar y byd.

ENAID

Mynd amdani

Anghysbell a dyfeisgar. R'yn ni'n gwneud y gorau o'r asedau naturiol sydd yma - y tir, yr afon, y môr. R'yn ni'n torchi llewys, yn codi i wynebu'r her. R'yn ni'n cynnig egni a pharodrwydd i wneud. Mae syniadau'n hanfodol. Ond r'yn ni'n eu gweithredu nhw. Dyma'r allwedd i fordwyo trwy pob newid a chyrraedd y lan.

ABERTEIFI Y STORI

Dilynwch belydrau'r machlud a'i gwneud hi am y gorllewin, ar ymyl eithaf Cymru. Lle mae'r Teifi'n cwrdd â'r môr.

Yma, fel y llanw, mae syniadau'n llifo. A busnesau'n gwneud yn dda. Lle i arloeswyr; lle i rai sy'n creu. Gwneuthurwyr a rhai anghyffredin. Yn gweld y byd trwy lygaid sy'n wahanol. Mae Aberteifi wedi denu pobl erioed. Syrffwyr, rhwyfwyr a rhai sy'n gwneud dim ond chwilio am heddwch hardd traethau Bae Ceredigion.

Mudwyr a welodd Aberteifi yn borth i fywyd newydd ar ochr draw'r lwerydd. A hithau'n dref farchnad a phorthladd hanesyddol, roedd yn gartref i fasnachwyr a marsiandiwy'r. Pobl a chwiliai fywoliaeth o'r ddaear ac o'r môr. Ffermwyr a physgotwyr. Adeiladwyr llongau a siopwyr.

Efallai fod y traddodiad masnachol wedi helpu'r dref i'w chreu ei hun o'r newydd. Wrth i strydoedd siopa gloffi mewn mannau eraill, mae Aberteifi'n symud ymlaen.

Heddiw, mae yma egni tawel. A'r hyn sy'n tanio'r cyfan yw'r adnodd pwysicaf oll - ei phobl.

Newydd gyrraedd y mae rhai. Mae teuluoedd rhai yma ers canrifoedd. Ond maen nhw i gyd yn barod i weithredu. Y dref fwyaf cŵl yng Nghymru, meddai rhai. Ein cartref, medden ninnau.

Heddiw, mae Aberteifi'n cynrychioli Cymru newydd. Cymru lle mae meddylwyr gwreiddiol yn ffynnu a syniadau'n llifo'n gryf.

A photograph of the Aberystwyth Pier in Wales during sunset. The pier is a long, white structure with a glass roof, supported by dark wooden posts. The sky is filled with a large flock of birds flying in a V-formation. The water is calm, reflecting the sky and the pier. The overall mood is serene and scenic.

ABERYSTWYTH

BANER Y BRAND

Prifddinas Ddiwylliannol Cymru

CONGLFEINI'R BRAND

Baner y Brand - Prifddinas Ddiwylliannol Cymru

LLE

Yr Ymyl. Y Galon

Ar ymyl y wlad ond wrth galon y genedl. Lle mae'r machlud yn wych a diwylliant Cymru'n gwawrio. Yng nghesail mynyddoedd y Cambrian, yn ymestyn allan i'r byd. Nid gogledd na de, ond gorllewin.

TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Deorfa dysg

Ers 150 mlynedd, mae pobl wedi dod yma i ddysgu a chael golwg newydd ar y byd a'i heriau. Mae Aberystwyth yn creu'r lle i fyfyrwyr archwilio a datblygu.

POBL

Yng Nghymru a'r byd

Yn Gymreig hyd fêr ei hesgyrn, ond â'i llygad ar y byd. Mae pobl o bob rhan o Gymru ac o bob cornel o'r byd yn dod yma. Ac amryw'n aros. Maen nhw'n cyfrannu at greu ein tref. Ac mae'r bobl sy'n gadael yn dal i garu'r dref.

ENAIÐ

Y ceidwad

Ni sy'n gwarchod cof y genedl. Ac yn adrodd ei hanes. Ni sy'n cadw cofnodion y cenedlaethau gynt. Eu hynt, eu helynt a'u hetifeddiaeth. Daw Cymry o dras yma i chwilio am stori'u teuluoedd. R'yn ni'n trysori a gwarchod ein hiaith a'n traddodiadau.

ABERYSTWYTH Y STORI

Ar ymyl pellaf Cymru ond wrth galon y genedl. Mae Aber yng nghanol diwylliant a hanes Cymru. Mae ymhell i'r gorllewin. Ond chewch chi unman mwy Cymreig.


Dyma gartref cof y genedl - Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn ôl rhai, mae yma fwy o lyfrau y pen nag yn unman arall yng ngwledydd Prydain i gyd. Mae'n naturiol felly mai dyma gartref Cyngor Llyfrau Cymru.

Deorfa dysg - mae Prifysgol Aberystwyth wedi croesawu myfyrwyr ers 1872. Er ei holl hanes hir, mae'n dref llawn ieuenctid hefyd. Daw mwy nag 8,000 o fyfyrwyr â bywyd ac ynni bob blwyddyn. Er mor Gymreig yw ei henaid, gallwch deimlo dylanwad y byd.

Ac mae mwy nag addysg yn tynnu pobl i'r dref. Aber yw'r garreg ddisglair ar fodrwy Bae Ceredigion; mae'n atynfa i ymwelwyr â'r holl ardaloedd o gylch. Maen nhw'n troedio prom y dref ac yn cicio'r bar ar y pen. Maen nhw'n rhyfeddu at y machludoedd enwog a'r cymylau cyfareddol o ddudrwyd. Eisteddwch, mwynhewch y perfformiad.

A hithau'n ennill enw da am siopau annibynnol a bwytai bendigedig, mae Aber yn denu ymwelwyr o fath newydd hefyd. Pobl sydd eisiau mwynhau diwylliant a chynnyrch Cymru - yn enwedig y lleol a'r organig. Bydd datblygiad yr Hen Goleg yn rhoi bywyd newydd i ganol y dref.

Croeso i drysorfa'r genedl.
Croeso i Brifddinas Diwylliant Cymru.



NEUADD TYSUL
1955

LLANDYSUL

BANER Y BRAND

Calon Teifi

CONGLFEINI'R BRAND

Baner y Brand - Calon Teifi

LLE

Ar lannau Teifi

Afon Teifi yw'r afon sy'n hanfodol Gymreig. O'i tharddiad ym Mynyddoedd y Cambrian, mae'n llifo tua 76 milltir i gyrraedd Bae Ceredigion. Llandysul yw hanner ffordd. Ac mae'r afon yn siapio Llandysul. Mae'n dod â swyddi, cynnyrch, hamdden, bywyd gwyllt a harddwch i'r dref.

TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Cymru i'r carn

Mae Llandysul yn gwbl Gymreig. Cartref Gwasg Gomer, y cyhoeddwr Cymraeg amlycaf am flynyddoedd maith. Roedd yn gartref hefyd i Ganolfan Telynuau Cymru. Mae'r Gymraeg yn gryf yn yr ardal. Yr ysgol uwchradd yw'r unig ysgol uwchradd gwbl Gymraeg ei chyfrwng yn yr ardal i gyd.

POBL

Gofal

Yma, mae pobl yn gofalu. Yn gofalu am ei gilydd. Maen nhw'n llawn gofal am eu tref: ei hanes a'i dyfodol. Mae'r prawf i'w weld yn yr holl wirfoddoli a gwaith cymunedol. Wrth i wasanaethau leihau, mae'r bobl leol wedi gweithredu. Gan gynnig cefnogaeth a chymorth i'r rhai sydd yn nannedd newid.

ENAIÐ

Cynefin

Mae'r ymlyniad i'r dref yn ddwfn, ac i'r wlad o'i hamgylch. Mae rhai teuluoedd yma ers cenedlaethau, eraill yn fwy diweddar. Ond maen nhw i gyd yn rhannu eu hoffter o Landysul a'u teimladau o berthyn. Mae'r teimlad o gymuned yn gryf.

LLANDYSUL Y STORI

Afon Teifi. Mae'n llifo rhwng bryniau isel a thrwy diroedd ffrwythlon Gorllewin Cymru. Gan deithio 76 milltir o'i tharddiad yn Llynnoedd Teifi i'r môr ym Mae Ceredigion. Weithiau'n frochus, weithiau'n fwyn, mae'n llithro trwy drefi a phentrefi.

Ond does unman yn cyfleu harddwch ac ysbryd Cymreig yr afon hon yn debyg i Landysul. Ar ganol ei thaith o'r mynydd i'r môr, dyma Galon Teifi. Mewn man prydfarth ar lannau'r afon, ar lethrau bryniau Ceredigion.

Fe ddaeth yr afon â ffyniant a chyfleoedd. O'r hen ddiwydiant Gwlân Cymreig i'r eog, y sewin a'r brithyll. Mae hefyd yn gartref i fywyd gwyllt. Wrth fynd am dro ger Eglwys Tysul efallai y cewch chi gip o las y dorlan prin.

A nawr, unwaith eto, r'yn ni'n troi at yr afon. Mae Llandysul Paddlers yn denu caiacwyr newydd a phrofiadol o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Gall cerddwyr a phererinion ar Lwybr Dyffryn Teifi yn oedi yma i ddathlu cyrraedd hanner ffordd.

Mae tîmau chwaraeon wrth eu boddau'n cysadlu yn y parc ar lan yr afon - ymlith yr harddaf yng Nghymru.

Cartref Gwasg Gomer a Thelynuau Teifi, mae ein hysbryd Cymreig yn fyw. Cymuned glos, mewn tref sy'n llawn cymeriad a llawn cymeriadau. Lle mae pobl wedi'u gwreiddio, yn llawn gofal am ei gilydd. Stryd fawr lle gallwch chi fwynhau bwyd Cymreig a phrynu cynnyrch lleol.

Dyma Landysul. Calon Teifi.

A window with a grid of panes looking out onto a landscape. The top panes show a golden-brown hillside under a bright sky. The bottom panes show dark, jagged rocks and some green vegetation. A white rectangular box is overlaid on the middle panes.

TREGARON

BANER Y BRAND

Calon ac Enaid y Cambrian

CONGLFEINI'R BRAND

Baner y Brand - Calon ac Enaid y Cambrian

LLE

Wedi'i ffurfio gan Fynyddoedd y Cambrian

Mae Tregaron wedi'i ffurfio gan yr union fynyddoedd sy'n asgwrn cefn i Gymru. Mae'n parhau'n fan lle daw pobl i fasnachu ac mae'r wlad o amgylch yn dal i gynnig swyddi a chyfleoedd.

TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Llawn o straeon

Croesffordd yw Tregaron. Ble daw pobl ynghyd. Mae porthmyn, ffermwyr a merlotwyr wedi ymgasglu yma. A ble bydd pobl yn cwrdd, bydd straeon yn cael eu dweud. Yn y siopau a'r tafarndai lleol, mae pobl wrth eu boddau'n adrodd y straeon sy'n rhoi cymeriad arbennig i Dregaron.

POBL

Llawn egni

Tref torchi-llewys yw hon. Heddiw, mae yma egni newydd. Mae ein pobl ifanc yn dod â bywiogrwydd a sŵn gobaith. Yn dathlu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Yn helpu i lunio'r syniadau fydd yn mynd â Thregaron i'r dyfodol. Dyfodol sy'n cadw a chynnal ein cymeriad unigryw.

ENAIÐ

Annibynnol

Mae yma ysbryd annibynnol. Efallai am fod y dre'n anghysbell, mae pobl yn gwneud pethau yn eu ffyrdd eu hunain. A heddiw, o amgylch y sgwâr, mae yna siopau annibynnol yn gwerthu crefftau a chynnyrch o'r ardal ac o Gymru. Dyma ysbryd Tregaron a pham fod pobl yn caru'r lle ibynnol.

TREGARON Y STORI

Ar lethrau Elenydd ym Mynyddoedd y Cambrian mae lle gwirioneddol Gymreig. Lle y mae'r mynyddoedd eu hunain yn ffurfio ei gymeriad - y mynyddoedd a ffurfiodd Gymru.

Tregaron yw'r Gymru go iawn. Lle mae'r harddwch yn wyllt. A phobl wedi'u gwreiddio. Yn y ddaear a'u cymuned. Cymuned sy'n dal i weithio, nid dim ond denu twristiaid.

Trwy'r oesoedd, y cefn gwlad Cymraeg o'i chwmpas a greodd y dref farchnad hon. Roedd porthmyn, ffermwyr a merlotwyr yn casglu yma, gan ddod â sŵn a bywyd. Yn masnachu, yn cymdeithasu, yn chwedleua. Ac yn Nhregaron, mae chwedlau ym mhob twll a chornel. Straeon am eliffantod, lladron penffordd a heddychwyr.

Gyda'i balchder yn ei hanes, mae Tregaron bellach yn canolbwyntio ar ei phresennol. Heddiw, mae yna sŵn newydd ac egni newydd. Mae'r dref yn dal i ddenu. Yn gartref i deuluoedd ifanc. Yn cynnal gwyliau i ddod â lliw i'r llethrau a cherddoriaeth i'r mynyddoedd. Siopau annibynnol yn llawn o gynnyrch Celtaidd a Chymreig.

A bellach, mae teithwyr newydd ar y ffordd. Teithwyr llawn chwilfrydedd sy'n gwerthfawrogi'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Fforwyr wedi'u denu gan harddwch, hanes a byd natur syfrdanol Elenydd.

Tregaron. Calon ac Enaid y Cambrian.

A photograph of a pottery workshop. In the foreground, a wooden workbench holds a large yellow ceramic bowl. To the left, a white electrical outlet is visible on the wall. In the background, wooden shelves are filled with numerous finished and unfinished ceramic vessels, including vases and bowls. The lighting is warm and focused on the workbench.

LLANBEDR
PONT STEFFAN
LAMPETER

BANER Y BRAND

Y Bont

CONGLFEINI'R BRAND

Baner y Brand - Y Bont

LLE

A'i thraed yn y ddaear

Y ddaear sydd yn ein llunio. Mewn dysgl naturiol o dir yng nghoflaid y bryniau a'r mynyddoedd. Mae'r tir wedi dod â bwyd a ffyniant. Hi sy'n tyfu llawer o'r cynnyrch ar gownteri ein marchnadoedd a'n siopau.

TREFTADAETH A DIWYLLIANT

Canolfan Dysg

Dyma'r dref brifysgol leiaf yng ngwledydd Prydain a chartref y brifysgol hynaf yng Nghymru. Mae'r Brifysgol wedi helpu i'n siapiro. Yn denu talent. Yn denu meddylwyr. Yn dod ag egni newydd.

POBL

Croesawgar

Mae croeso yma i bawb. Lle sy'n gwneud i bob un deimlo'n gartrefol. Lle gall pawb deimlo'n ddiogel a bod yn nhw eu hunain. R'yn ni'n Gymry balch ond yn agor ein breichiau. I bobl sy'n caru Llanbed am yr hyn yw hi.

ENAIÐ

Meddwl rhydd

R'yn ni'n cynnig cyfle i bobl feddwl yn wahanol. I herio confensiwn a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddatrys hen broblemau. R'yn ni'n annog a chofleidio syniadau newydd.

LLANBEDR PONT STEFFAN Y STORI

Llanbedr Pont Steffan. Y bont yw hanfod y dref. Un sy'n uno a chysylltu. Mae'r bont yn cysylltu Ceredigion â Sir Gâr. Golygfa i gynhesu calon y rhai sy'n dod yn ôl. A symbol o groeso i bobl sy'n chwilio am le i fod yr hyn a ddymunan' nhw.

A natur yn ein cofleidio, r'yn ni'n enwog am groesawu eraill. Wrth galon Cymru, yn falch o'r iaith Gymraeg, ond yn rhyngwladol hefyd, yn cysylltu diwylliannau ac yn uno cymunedau. Mae ein gwreiddiau'n ddwfn yn y cefn gwlad sy'n ein cynnal, felly r'yn ni'n bont rhwng gwlad a thref.

Mae natur o'n hamgylch yn darparu cynnyrch a denu ymwelwyr. Mae'n cynnig cyfleoedd i arloesi a chreu swyddi, felly rhaid ei gwarchod. Dyna pam fod Llanbedr hefyd yn bont rhwng ffermio traddodiadol a gweithio tros yr amgylchedd. Ers blynyddoedd, r'yn ni'n chwifio'r faner tros

amaethu organig. A hithau'n dref gyntaf addysg uwch yng Nghymru, mae Llanbedr yn cysylltu bywyd a gwybodaeth. Mae ein Prifysgol wedi cynnig rhagoriaeth dysg ers 200 mlynedd, gan ein helpu i ymestyn mas i'r byd.

Ac am fod Llanbedr yn edrych ymlaen, bydd dysg yn cysylltu ein gorffennol a'n dyfodol. Yn adeiladu ar ein hen,hen ddealltwriaeth o'r ddaear, i gynnig atebion i heriau byd-eang ynghylch bwyd a ffermio a mentrau gwledig. Fel y bu'r porthmyn yn cysylltu Cymru â marchnadoedd Lloegr, bydd Llanbedr y dyfodol yn cyrraedd marchnadoedd newydd.

Dyma ffordd Llanbedr o weithio: yn cysylltu, cydweithio a dysgu. Llanbedr y bont, rhwng ddoe, heddiw a fory.

EIN SYSTEM HUNANIAETH

Rydym wedi creu arddull enw ar gyfer pob tref fel rhan o system hunaniaeth ehangach. Rydym wedi dewis ffont ffres a chyfoes oherwydd dylai pob tref a'r sir gael eu hyrwyddo mewn ffordd ffres a chyfoes.

DOD Â'R BRANDIAU'N FYW

Bydd y trefi yn cael eu hyrwyddo fel lleoedd i leoli a thyfu busnes, i fyw ac i lwyddo, i ddysgu, ac i ymweld â nhw. Felly mae angen i'r system fod yn hyblyg er mwyn caniatáu hyn. Dylai helpu'r sir i edrych i'r dyfodol yn ogystal ag adrodd hanes ein treftadaeth gyfoethog.

Logos Trefi

Defnyddir yr un ffont ar gyfer pob tref. Dangosir natur unigryw pob tref drwy'r cynnwys, y lliwiau, y delweddau a'r negeseuon amgylchynol a gaiff eu llywio gan golofnau a baneri'r brand.

ABERYSTWYTH

ABERAERON

LLANDYSUL

TREGARON

LLANBEDR
PONT STEFFAN
LAMPETER

ABERTEIFI
CARDIGAN

HUNANIAETH ABERAERON

Dyma hunaniaeth Aberaeron. Wedi'u hysbrydoli gan lannau'r harbwr, caiff y lliwiau hyn eu paru â ffont craidd y brand i greu hunaniaeth unigryw sy'n hawdd ei hadnabod ar gyfer Aberaeron.



ABERAERON

Eglurder

Dylid defnyddio logo gwyn ar gyfer deunydd tywyll. Dylid defnyddio logo du ar gefndiroedd goleuach. Gallwch hefyd ddefnyddio'r logo yn lliwiau amrywiol y dref.



Lliwiau Amrywiol

Gan ddefnyddio palet lliwiau Aberaeron, mae pedwar lliw gwahanol y gellir eu defnyddio ar gefndiroedd lliw golau a thywyll.



Beth na ddylid ei wneud

Peidiwch ag ystumio'r enw.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n rhan o balet y dref.



Peidiwch â throï'r enw.



Peidiwch â newid y teip.



Peidiwch â newid y geiriad.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n sefyll allan yn erbyn y lliw cefndir.



Maint Lleiaf

Fel rheol, ni ddylai'r enw fod yn llai na 35mm pan gaiff ei ddefnyddio ar ddeunydd argraffedig a 200px ar gyfer ei ddefnyddio ar y we.



35mm
200px

Ardal Waharddedig

Mae'n bwysig cadw'r enw i ffwrdd oddi wrth unrhyw elfennau graffig eraill. Defnyddiwch 2x y sgwâr gornel fel canllaw ar gyfer gofod clir.



Palet Aberaeron (Tŷ Trefol)

Mae'r defnydd o liw yn rhan bwysig ac unigryw o hunaniaeth ein brand. Gyda'r palet hwn, gallwn sicrhau bod gan holl ddeunydd cyfathrebu Aberaeron steil gweledol cryf a chyson.

Pantone 2195c
C:94 M:41 Y:0 K:0
R:0 G:118 B:213
#0076D5


Pantone 151c
C:0 M:62 Y:100 K:0
R:255 G:130 B:4
#FF8204

Pantone 100
C:1 M:0 Y:70 K:0
R:255 G:240 B:120
#FFF078



HUNANIAETH ABERTEIFI

Dyma hunaniaeth Aberteifi. Wedi'u hysbrydoli gan natur a bywyd newydd, caiff y lliwiau hyn eu paru â ffont craidd y brand i greu hunaniaeth unigryw sy'n hawdd ei hadnabod ar gyfer Aberteifi.



Eglurder

Dylid defnyddio logo gwyn ar gyfer deunydd cyfathrebu â chefnidir tywyll. Dylid defnyddio logo du ar gefndiroedd goleuach. Gallwch hefyd ddefnyddio'r logo yn lliwiau amrywiol y dref.



Lliwiau Amrywiol

Gan ddefnyddio palet lliwiau Aberteifi, mae dau liw gwahanol y gellir eu defnyddio ar gefndiroedd lliw golau a thywyll.




Beth na ddylid ei wneud


Peidiwch ag ystumio'r enw.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n rhan o balet y dref.



Peidiwch â throï'r enw.



Peidiwch â newid y teip.



Peidiwch â newid y geiriad.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n sefyll allan yn erbyn y lliw cefndir.



Maint Lleiaf


Fel rheol, ni ddylai'r enw fod yn llai na 35mm pan gaiff ei ddefnyddio ar ddeunydd argraffedig a 200px ar gyfer ei ddefnyddio ar y we.



35mm
200px

Ardal Waharddedig

Mae'n bwysig cadw'r enw i ffwrdd oddi wrth unrhyw elfennau graffig eraill. Defnyddiwch 2x y sgwâr gornel fel canllaw ar gyfer gofod clir.



Palet Aberteifi
(Ochr Borffor)

Mae'r defnydd o liw yn rhan bwysig ac unigryw o hunaniaeth ein brand. Gyda'r palet hwn, gallwn sicrhau bod gan holl ddeunydd cyfathrebu Aberteifi steil gweledol cryf a chyson.

Pantone 3542
C:98 M:98 Y:0 K:60
R:33 G:23 B:75
#21174B

Pantone 7443
C:18 M:15 Y:0 K:0
R:221 G:219 B:249
#DDDBF9



HUNANIAETH ABERYSTWYTH

Dyma hunaniaeth Aberystwyth. Wedi'u hysbrydoli gan y galon a'r awyr, caiff y lliwiau hyn eu paru â ffont craidd y brand i greu hunaniaeth unigryw sy'n hawdd ei hadnabod ar gyfer Aberystwyth.



ABERYSTWYTH

Eglurder

Dylid defnyddio logo gwyn ar gyfer deunydd cyfathrebu â chefnidir tywyll. Dylid defnyddio logo du ar gefndiroedd goleuach. Gallwch hefyd ddefnyddio'r logo yn lliwiau amrywiol y dref.



Lliwiau Amrywiol

Gan ddefnyddio palet lliwiau Aberystwyth, mae dau liw gwahanol y gellir eu defnyddio ar gefndiroedd lliw golau a thywyll.



Beth na ddylid ei wneud

Peidiwch ag ystumio'r enw.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n rhan o balet y dref.



Peidiwch â throï'r enw.



Peidiwch â newid y teip.



Peidiwch â newid y geiriad.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n sefyll allan yn erbyn y lliw cefndir.



Maint Lleiaf

Fel rheol, ni ddylai'r enw fod yn llai na 35mm pan gaiff ei ddefnyddio ar ddeunydd argraffedig a 200px ar gyfer ei ddefnyddio ar y we.



35mm
200px

Ardal Waharddedig

Mae'n bwysig cadw'r enw i ffwrdd oddi wrth unrhyw elfennau graffig eraill. Defnyddiwch 2x y sgwâr gornel fel canllaw ar gyfer gofod clir.



Palet Aberystwyth (Machlud Coch)

Mae'r defnydd o liw yn rhan bwysig ac unigryw o hunaniaeth ein brand. Gyda'r palet hwn, gallwn sicrhau bod gan holl ddeunydd cyfathrebu Aberystwyth steil gweledol cryf a chyson.

Pantone 3517
C:15 M:98 Y:90 K:6
R:189 G:30 B:33
#BD1E21

Pantone 698
C:0 M:15 Y:3 K:0
R:245 G:220 B:230
#F5DCE6



HUNANIAETH LLANDYSUL

Dyma hunaniaeth Llandysul. Wedi'u hysbrydoli gan yr afon Teifi, caiff y lliwiau hyn eu paru â ffont craidd y brand i greu hunaniaeth unigryw sy'n hawdd ei hadnabod ar gyfer Llandysul.



LLANDYSUL

Eglurder

Dylid defnyddio logo gwyn ar gyfer deunydd cyfathrebu â chefnidir tywyll. Dylid defnyddio logo du ar gefndiroedd goleuach. Gallwch hefyd ddefnyddio'r logo yn lliwiau amrywiol y dref.



LLANDYSUL



LLANDYSUL



LLANDYSUL



LLANDYSUL

Lliwiau Amrywiol

Gan ddefnyddio palet lliwiau Llandysul, mae dau liw gwahanol y gellir eu defnyddio ar gefndiroedd lliw golau a thywyll.



LLANDYSUL



LLANDYSUL

Beth na ddylid ei wneud

Peidiwch ag ystumio'r enw.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n rhan o balet y dref.



Peidiwch â throï'r enw.



Peidiwch â newid y teip.



Peidiwch â newid y geiriad.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n sefyll allan yn erbyn y lliw cefndir.



Maint Lleiaf

Fel rheol, ni ddylai'r enw fod yn llai na 35mm pan gaiff ei ddefnyddio ar ddeunydd argraffedig a 200px ar gyfer ei ddefnyddio ar y we.



35mm
200px

Ardal Waharddedig

Mae'n bwysig cadw'r enw i ffwrdd oddi wrth unrhyw elfennau graffig eraill. Defnyddiwch 2x y sgwâr gornel fel canllaw ar gyfer gofod clir.



Palet Llandysul
(Glas Teifi)

Mae'r defnydd o liw yn rhan bwysig ac unigryw o hunaniaeth ein brand. Gyda'r palet hwn, gallwn sicrhau bod gan holl ddeunydd cyfathrebu Llandysul steil gweledol cryf a chyson.

Pantone 2392
C:85 M:56 Y:44 K:38
R:39 G:75 B:91
#274B5B

Pantone 642
C:20 M:2 Y:0 K:0
R:221 G:240 B:253
#DDF0FD



HUNANIAETH TREGARON

Dyma hunaniaeth Tregaron. Wedi'u hysbrydoli gan Fynyddoedd y Cambrian, caiff y lliwiau hyn eu paru â ffont craidd y brand i greu hunaniaeth unigryw sy'n hawdd ei hadnabod ar gyfer Tregaron.



TREGARON

Eglurder

Dylid defnyddio logo gwyn ar gyfer deunydd cyfathrebu â chefnidir tywyll. Dylid defnyddio logo du ar gefndiroedd goleuach. Gallwch hefyd ddefnyddio'r logo yn lliwiau amrywiol y dref.



Lliwiau Amrywiol

Gan ddefnyddio palet Tregaron, mae dau liw gwahanol y gellir eu defnyddio ar gefndiroedd lliw golau a thywyll.



Beth na ddylid ei wneud

Peidiwch ag ystumio'r enw.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n rhan o balet y dref.



Peidiwch â throï'r enw.



Peidiwch â newid y teip.



Peidiwch â newid y geiriad.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n sefyll allan yn erbyn y lliw cefndir.



Maint Lleiaf

Fel rheol, ni ddylai'r enw fod yn llai na 35mm pan gaiff ei ddefnyddio ar ddeunydd argraffedig a 200px ar gyfer ei ddefnyddio ar y we.



35mm
200px

Ardal Waharddedig

Mae'n bwysig cadw'r enw i ffwrdd oddi wrth unrhyw elfennau graffig eraill. Defnyddiwch 2x y sgwâr gornel fel canllaw ar gyfer gofod clir.



Palet Tregaron (Glaswellt)

Mae'r defnydd o liw yn rhan bwysig ac unigryw o hunaniaeth ein brand. Gyda'r palet hwn, gallwn sicrhau bod gan holl ddeunydd cyfathrebu Tregaron steil gweledol cryf a chyson.

Pantone 4215
C:73 M:47 Y:80 K:51
R:56 G:73 B:47
#38492F

Pantone 2281
C:20 M:0 Y:30 K:0
R:218 G:251 B:196
#DAFBC4





HUNANIAETH LLANBEDR PONT STEFFAN

Dyma hunaniaeth Llanbedr Pont Steffan. Wedi'u hysbrydoli gan y tir, caiff y lliwiau hyn eu paru â ffont craidd y brand i greu hunaniaeth unigryw sy'n hawdd ei hadnabod ar gyfer Llanbedr Pont Steffan.

LLANBEDR
PONT STEFFAN
LAMPETER

Eglurder

Dylid defnyddio logo gwyn ar gyfer deunydd cyfathrebu â chefnidir tywyll. Dylid defnyddio logo du ar gefndiroedd goleuach. Gallwch hefyd ddefnyddio'r logo yn lliwiau amrywiol y dref.



Lliwiau Amrywiol

Gan ddefnyddio palet lliwiau Llanbedr Pont Steffan, mae dau liw gwahanol y gellir eu defnyddio ar gefndiroedd lliw golau a thywyll.



Beth na ddylid ei wneud

Peidiwch ag ystumio'r enw.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n rhan o balet y dref.



Peidiwch â throï'r enw.



Peidiwch â newid y teip.



Peidiwch â newid y geiriad.



Peidiwch â lliwio'r enw mewn lliw nad yw'n sefyll allan yn erbyn y lliw cefndir.



Maint Lleiaf


Fel rheol, ni ddylai'r enw fod yn llai na 35mm pan gaiff ei ddefnyddio ar ddeunydd argraffedig a 200px ar gyfer ei ddefnyddio ar y we.



35mm
200px

Ardal Waharddedig

Mae'n bwysig cadw'r enw i ffwrdd oddi wrth unrhyw elfennau graffig eraill. Defnyddiwch 2x y sgwâr gornel fel canllaw ar gyfer gofod clir.



Palet Llanbedr Pont Steffan
(Pioden)

Mae'r defnydd o liw yn rhan bwysig ac unigryw o hunaniaeth ein brand. Gyda'r palet hwn, gallwn sicrhau bod gan holl ddeunydd cyfathrebu Llanbedr Pont Steffan steil gweledol cryf a chyson.

Pantone 419
C:76 M:65 Y:66 K:90
R:34 G:36 B:35
#222423

Pantone 11-4201 TCX
C:7 M:6 Y:9 K:0
R:240 G:238 B:233
#F0EEE9



EIN SYSTEM TEIPIAU

Aa Bb Cc Dd Ee Ff Gg Hh Ii
Jj Kk Ll Mm Nn Oo Pp Qq Rr
Ss Tt Uu Vv Ww Xx Yy Zz

Pennawd - Manuka Bold - Klim Type Foundry

Aa Bb Cc Dd Ee Ff Gg
Hh Ii Jj Kk Ll Mm Nn
Oo Pp Qq Rr Ss Tt Uu
Vv Ww Xx Yy Zz

Copi paragraffau - Inter Regular - Google Font (Rasmus Andersson)

Mae ein system teipiau, sy'n cynnwys dwy ffont, yn caniatáu i ni gyfathrebu'n glir. Manuka Bold ar gyfer penawdau ac Inter Regular ar gyfer is-deitlau clir a'r prif destun. Dylid ond defnyddio'r lliwiau a nodir yn y canllaw hwn, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y chwe thref.

Manuka Bold

ENGHRAIFFT O DEITL

Inter Regular

Sam voluptate dolore pa exceptud aeptia doloribustia poriorio evenitatur?

Inter Regular

Sam voluptate dolore pa exceptud aeptia doloribustia poriorio evenitatur? Qui voloreh endaest, si cus dolupta tenimin cusapicti nis vent, volorit, ipita viditio riament inimus aut aciaerum quid quidelique ea duntionesed mi, corum nus ellore, et et, cum iusandi conest quam, quas dolupta tectem dolore eic teselectem. Et magnate secearibus, aut ut odi officitur auta sent dipiene iusdae con estibea.

Manuka Bold

ENGHRAIFFT O DEITL

Inter Regular

Sam voluptate dolore pa exceptud aeptia doloribustia poriorio evenitatur?

Inter Regular

Sam voluptate dolore pa exceptud aeptia doloribustia poriorio evenitatur? Qui voloreh endaest, si cus dolupta tenimin cusapicti nis vent, volorit, ipita viditio riament inimus aut aciaerum quid quidelique ea duntionesed mi, corum nus ellore, et et, cum iusandi conest quam, quas dolupta tectem dolore eic teselectem. Et magnate secearibus, aut ut odi officitur auta sent dipiene iusdae con estibea.

EIN FFOTOGRAFFIAETH

Caiff ein steil ffotograffiaeth ei ddylanwadu gan naratif, baneri a cholofnau'r brand, a dylai deimlo'n naturiol, gan adlewyrchu natur real Ceredigion.



FFOTOGRAFFIAETH

Pobl



Mae Ceredigion a'i threfi yn fyw. Mae pobl yn cyfleu bywiogrwydd. Pobl yn gwneud pethau. Ymwelwyr a phobl leol gyda'i gilydd. Pobl wedi'u trwytho yn y trefluniau, yn teimlo'n rhan o'r lle, nid arsylwyr yn unig.

FFOTOGRAFFIAETH

Real

Dylem osgoi delweddau sy'n edrych fel rhai sydd wedi'u gosod. Ni ddylai pobl byth fod yn edrych yn syth at y camera. Mae steil ffotonewyddiaduraeth neu Instagram yn helpu i ddangos yr hyn sy'n digwydd yn y foment. Dylid osgoi lluniau twristiaeth nodweddiadol. Rydym am greu ymdeimlad gwirioneddol o le. Peidiwch â dangos atyniadau twristiaeth yn unig, dangoswch fod pob tref yn lle i fyw ac i weithio.



FFOTOGRAFFIAETH

Gwlad a Thref



Mae'r gydberthynas rhwng y trefi a'r amgylchedd o'u cwmpas yn bwysig.

Y mynyddoedd, y caeau, yr afonydd a'r arfordir. Maen nhw'n rhoi cyd-destun i'r dref ac yn helpu i ddangos sut mae natur wedi dylanwadu ar bob tref. Felly, ceisiwch ddangos agwedd ar y dref sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol bob amser.

Y dref yn edrych allan neu natur yn edrych i mewn. Yma, gallwn ddefnyddio pobl yn gynnill, sicrhau nad nhw yw ffocws y llun, bron pe baen nhw'n ymdoddi i mewn i'r hyn sydd o'u cwmpas.



FFOTOGRAFFIAETH

Manylion

Mae lluniau manwl yn creu llofnodion gweledol ac yn rhoi gwell ymdeimlad o le. Gall lluniau manwl a lluniau cynnyrch helpu i sefydlu hierarchaeth weledol o fewn ffotograffiaeth.

Gellid cynnwys enwau strydoedd, ffryntiau siopau, bwydlenni, ac arwyddion. Edrychwch yn benodol am ddelweddau sy'n dangos Cymreictod y trefi ac sy'n dangos bod y Gymraeg yn iaith fyw. Mae lluniau manwl yn caniatáu i'r sawl sy'n edrych arnyn nhw ymchwilio'n ddyfnach i bob tref. Gall y lluniau hyn gael eu defnyddio i dynnu sylw at fanylion a symudiadau llai sydd yn aml yn cael eu hanwybyddu.

Defnyddiwch ardal ffocws fach er mwyn gwneud i'r manylion sefyll allan. Bydd hyn yn rhoi ffocws i'r pwnc ac yn niwlo'r cefndir, gan orfodi'r sawl sy'n edrych ar y llun i ganolbwyntio ar y manylion pwysig.



RHESTR WIRIO AR GYFER DELWEDDAU

Dewiswch eich delwedd yn ofalus,
gan wneud yn siŵr:

EI BOD YN TEIMLO'N REAL.

EI BOD O ANSAWDD UCHEL.

EI BOD YN DANGOS CYSYLLTIAD RHWNG POBL A LLE.

BOD Y PWNC YN DDIDDOROL.

BOD YNA EGNU IDDI.

BOD YNA DDYFNDER IDDI.

EI BOD WEDI'I CHYFANSODDI'N DDA.

Y FFORDD YMLAEN

Y Ffordd Ymlaen

Y Dirwedd Farchnata Newidiol

Mae technoleg, cyfryngau digidol a chyfryngau cymdeithasol wedi newid y dirwedd marchnata lle. Mae cyfathrebu gan gyrrff ffurfiol yn cael llai o ddylanwad ar ddewis cwsmeriaid oherwydd bod mwy a mwy o bobl yn osgoi ffynonellau gwybodaeth swyddogol. Mae rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol yn cael mwyfwy o ddylanwad ar eu penderfyniadau. Ac mae'r cyfryngau digidol yn gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch.

Yn y dirwedd newydd hon, mae marchnata digidol a chymdeithasol yn hollbwysig. Ac, yn y byd newydd hwn, mae defnyddio pŵer rhwydweithiau ar-lein yn allweddol. Erbyn hyn, mae pobl yn gwneud mwy na defnyddio gwybodaeth. Maen nhw'n creu cynnwys drwy sianeli cymdeithasol, felly gallan nhw rannu eu syniadau a'u barn yn hawdd.

Bydd angen i Geredigion a'i threfi adeiladu eu rhwydweithiau cymdeithasol ac annog mwy o bobl a busnesau i fod yn eiriolwyr gweithredol dros y trefi er mwyn helpu i rannu ac ehangu eu negeseuon. Ni chaiff enw'r trefi ei newid drwy hysbysebion y telir amdanynt.


Prin yw'r lleoedd, os o gwbl, a all lwyddo drwy ddibynnu ar sianeli y telir amdanynt. Felly mae angen pwyslais cynyddol ar 'gyfryngau a enillir'. Mae hyn yn golygu sicrhau mwy o adolygiadau, sylwadau, rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys dylanwadwyr am ddim. Mae hefyd yn golygu actifadu eich cymunedau, a'u troi o fod yn arsylwyr goddefol i fod yn llysgenhadon rhagweithiol. Er mwyn cyflawni'r uchelgais ar gyfer pob tref, bydd cymorth eich partneriaid a'ch cymunedau yn hollbwysig.



Pwysigrwydd Cyfryngau a Enillir

Cymuned

Cyfryngau Teithio
a Ffordd o Fyw
Adolygiadau
Sylwadau
Rhannu ar y Cyfryngau
Cymdeithasol
Dylanwadwyr Am Ddim
Eiriolwyr
Partneriaid
Dinasyddion



AILYSTYRIED TARGEDU YMWELWYR

Gan adlewyrchu'r angen i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau economaidd a chymdeithasol twristiaeth a diogelu natur arbennig pob tref ar yr un pryd, dylai marchnata flaenoriaethu'r ymwelwyr a fydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf at ffyniant y dref.

Mae hyn yn cynnwys asesu'r math o gynhyrchion a phrofiadau y maen nhw'n dymuno eu cael, yn ogystal â'r amser o'r flwyddyn y maen nhw'n fwyaf tebygol o ymweld – bydd ymwelwyr yn ystod y misoedd ar ddechrau a diwedd y cyfnod prysuraf yn helpu i ymestyn y tymor a chynnal busnesau lleol. 'Ymwelwyr sy'n Cyfrannu' yw'r rhain – ond mae mwy o werth iddynt na chyfraniad economaidd yn unig. Maen nhw'n cyfrannu at ddiwylliant a thraddodiadau lleol am fod ganddyn nhw ddiddordeb ynddyn nhw ac eisiau cael profiad ohonyn nhw. Maen nhw hefyd yn cyfrannu at wella'r ffordd y caiff Ceredigion ei hyrwyddo drwy rannu eu profiadau eu hunain drwy sianeli cymdeithasol.

Maen nhw'n chwilfrydig. Maen nhw eisiau archwilio y tu hwnt i'r manau sefydledig hynny sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid. Maen nhw'n fforwyr. Maen nhw'n deithwyr yn hytrach na thwristiaid.

MABWYSIADU MEDDYLFRYD BRAND HERIWR

Mae lleoedd sydd wedi trawsnewid eu henw â chyllidebau bach wedi dibynnu ar arloesedd ac wedi ymddwyn fel 'brandiau heriwr'. Nid yw'r brandiau hyn yn arweinwyr yn y farchnad, ond maen nhw eisiau herio lleoedd sefydledig.

Maen nhw'n barod i fod yn ddewr a chymryd risgiau gyda'u gweithgarwch marchnata. Maen nhw'n creu cynnwys sydd wedi'i gynllunio i'w rannu ac i greu sgysiaid cadarnhaol. Yn fyr, mae popeth yn cael ei gynllunio i sicrhau bod eu lle nhw yn destun trafod.

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn derbyn bod angen hybu enw'r trefi ac enw Ceredigion. Gall fod yn 'heriwr' gyflymu newid o ran enw, ond mae angen dealltwriaeth a chymorth mewnol i wneud hyn.



BLAENORIAETH 01

Annog a galluogi mwy o eiriolaeth ar gyfer pob tref. Mae eiriolaeth a chymorth ym mhob tref yn allweddol i sicrhau bod gan bob lle broffil cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cam gweithredu	Rhesymeg
Ystyried cynlluniau i sefydlu Bwrdd Lle ar gyfer pob tref. Bydd y rhain yn gweithio gyda Chyngor Ceredigion a Chynghorau Tref i ddatblygu cynlluniau lle ymhellach a'u rhoi ar waith.	Mae lleoedd llwyddiannus yn defnyddio arbenigedd a chymorth gweithredol dylanwadwyr a sefydliadau allweddol i helpu i lywio strategaeth brand y lle. Mae nifer o fodolau yn bodoli. Cyngor i ymgysylltu â phobl allweddol i gytuno ar yr ateb gorau ar gyfer y dref.
Datblygu cynlluniau i sefydlu rhaglen llysgenhadon ffurfiol ar gyfer Ceredigion a phob tref.	Yn aml, mae gan leoedd llwyddiannus raglenni llysgenhadon. Gall y rôl a'r diben amrywio o fynd ati i gynnal cynadleddau a chyfarfodydd, chwarae rolau fel cyfarchwyr mewn digwyddiadau pwysig neu siarad yn gadarnhaol am y trefi drwy rwydweithiau a chyfryngau cymdeithasol. Mae brand Caru Ceredigion yn bwynt cychwyn da.
Nodi cynrychiolwyr sefydliadau allweddol i ymateb i sylw mae'r dref yn ei gael yn y cyfryngau.	Mae'n bwysig bod pobl ar wahân i gynrychiolwyr Cynghorau a all siarad ar ran y dref. Gallai'r rhain fod yn gynrychiolwyr y Bwrdd Lle, ond, yn ddelfrydol, bydd eraill yn cynnig gwneud hynny hefyd.
Creu cynlluniau ymgysylltu a deunydd cyfathrebu mewnl.	Gall sefydliadau fel Twristiaeth Canolbarth Cymru, Croeso Cymru a Llywodraeth Cymru gyflymu'r ffordd y caiff enw'r trefi ei newid. Gallan nhw helpu i ledaenu negeseuon y brand a / neu ddarparu adnoddau ychwanegol.
Mewn perthynas â'r uchod, trefnu cyfarfodydd rheolaidd â darpar gyrff partner fel eu bod nhw'n gwbl ymwybodol o uchelgeisiau pob tref.	Awgrymu bod hyn yn cynnwys y potensial ar gyfer cyfarfodydd â chymunedau gwahanol yn y dref a segmentau busnes gwahanol.
Datblygu rhaglen o weithdai "Brand i Fywyd" ar gyfer pob tref.	Nod y gweithdai fyddai creu syniadau a chynlluniau sy'n defnyddio'r brand i ddylanwadu ar waith datblygu a marchnata yn y dyfodol a thaith y cwsmer.

BLAENORIAETH 02

Sicrhau bod modd gweld hunaniaeth y brand yn y trefi. Mae canllawiau'r brand yn dangos sut y gellir ei ddefnyddio mewn nifer o wahanol sianeli a sut y gall gwmpasu amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae'n bwysig sicrhau bod yr hunaniaeth yn cael ei chydhabod er mwyn annog pobl i'w mabwysiadu. Dylai hefyd greu ymdeimlad o le a chyrhaeddiad ar gyfer ymwelwyr â'r dref.

Cam gweithredu	Rhesymeg
Cynnal archwiliad o asedau'r Cyngor ac asedau sy'n eiddo i bartneriaid a allai gael eu defnyddio i fabwysiadu'r hunaniaeth newydd.	Ni fydd cyllidebau isel yn caniatáu llawer o hysbysebion y telir amdanynt o amgylch y dref. Ond, drwy ddefnyddio'r dychymyg, bydd yn bosibl defnyddio asedau bob dydd i hyrwyddo'r brand a'r hunaniaeth. Strategaeth 'tedia to media' yw hon. Gall y brand gael ei arddangos ar bethau fel arwyddion, hysbysfyrddau o amgylch safleoedd adeiladu, deunydd cyfathrebu'r Cyngor a waliau adeiladau.
Mewn perthynas â'r cam gweithredu uchod, datblygu system hyblyg i hyrwyddo'r dref mewn ffryntiau siopau gwag.	Bydd gan bob stryd fawr adeiladau gwag o bryd i'w gilydd. Gallan nhw edrych yn hyll a rhoi darlun negyddol. Ond gyda chydweithrediad perchnogion ac asiantau eiddo, dylai fod yn bosibl gosod deunydd brandio sy'n gwneud i'r lle edrych yn well ac sy'n helpu i adrodd hanes y dref a / neu gynnig gwybodaeth i ymwelwyr.
Gweithio gyda chymunedau busnes i greu amrywiaeth o asedau wedi'u brandio y gall manwerthwyr eu defnyddio.	Bydd sicrhau cefnogaeth y gymuned fusnes yn flaenoriaeth. Bydd cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u brandio iddyn nhw, fel arwyddion ar agor / ar gau, posterï 'Croeso' a gwybodaeth am ddigwyddiadau, yn dangos eich bod chi'n awyddus i weithio gyda nhw, ac yn helpu i greu ymdeimlad o le.
Datblygu strategaethau arwyddion a dehongli ar gyfer pob tref.	Bydd gan bob tref anghenion a blaenoriaethau gwahanol o ran dylanwadu ar lifau ymwelwyr a siopwyr ac o ran adrodd hanes y dref a'i phrif asedau. Mae arwyddion a darpariaeth ddehongli yn ffordd amlwg o ddangos hunaniaeth y brand.

BLAENORIAETH 03

Dilyn strategaeth cyfryngau digidol, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau a enillir. Ni chaiff enwau ei newid drwy hysbysebion y telir amdanynt. Bydd cyfryngau a enillir a chyfryngau cymdeithasol yn allweddol. Mae hyn yn gofyn am y meddylfryd iawn, cynnwys y gellir ei rannu ac adnoddau medrus.

Cam gweithredu	Rhesymeg
Pennu targedau blynyddol ar gyfer twf mewn rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol. Dylai ffrindiau, cynnwys a hoffir, dilynwyr, cynnwys a rennir ac ati fod yn rhan o'r gymysgedd.	Bydd rhwydweithiau cymdeithasol rhagweithiol yn hanfodol wrth ledaenu straeon y trefi. Mae lle sylweddol i dyfu mewn sianeli cymdeithasol.
Creu cynllun golygyddol a chynnwys blynyddol sy'n cynnwys blogiau, negeseuon e-bost, tudalennau cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau ac ati.	Er y bydd angen defnyddio'r dychymyg bob amser wrth ymateb i ddigwyddiadau a chyfleoedd, mae angen cynllun golygyddol a chynnwys cyffredinol sy'n llywio ymgyrchoedd ac yn ystyried blaenoriaethau tymhorol.
Creu diwylliant 'brand heriwr' sy'n sicrhau bod pobl yn siarad am y trefi, yn hybu rhannu cynnwys ac yn gwella enw.	Bydd sylw drwy'r cyfryngau a enillir yn hanfodol er mwyn llwyddo. Rydym am i bobl siarad am y ffordd y mae Ceredigion yn cael ei marchnata, ac rydym am i'r deunydd gael ei rannu a sefyll allan. Mae hyn yn galw, yn rhannol, am feddylfryd 'heriwr' ac adeiladu enw am farchnata arloesol.

BLAENORIAETH 04

Cynhyrchu cynnwys gweledol sy'n cyfleu negeseuon sy'n dod â'r brand a'r hunaniaeth newydd yn fyw.

Cam gweithredu	Rhesymeg
Datblygu gwefannau newydd i ymwelwyr gyda diben clir iawn o hybu gwariant a chynyddu hyd eu harhosiad.	Yn ddefnyddiol, bydd gwefan pob tref yn ficrowefan i wefan ehangach Darganfod Ceredigion. Mae strwythur hunaniaeth y brand yn annog y sir a threfi unigol i ddefnyddio'r un systemau. Bydd y ffordd hon ymlaen yn gosteffeithiol ac yn effeithlon.
Creu cyfres newydd o ddelweddau ar gyfer pob tref yn seiliedig ar y steil ffotograffiaeth newydd.	Mae ansawdd y delweddau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pob tref yn amrywio. Bydd steil cyson yn sicrhau bod y delweddau yn fwy dilys. Dylai hyn, yn ei dro, ysbrydoli defnydd ehangach.
Ystyried y potensial ar gyfer ffilm frand ar gyfer pob tref.	Byddai cynhyrchu ffilm fer ar gyfer pob tref sy'n gyson â'r brand yn help mawr i gael cefnogaeth ar gyfer syniadau'r brand. Gallai hefyd gael ei defnyddio gan y dref a'r cyngor sir ar wefannau / cyfryngau cymdeithasol a chyflwyniadau ac ati. Dylai'r ffilmiau fod yn gyson o ran steil, gan ganiatáu iddyn nhw gael eu golygu i wneud un ffilm hirach sy'n cynnwys yr holl drefi.

Hunaniaeth a Safleoli Cystadleuol

**TREFI
CEREDIGION**

Diolch am ddarllen